Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar y Cyd

Cylch Gorchwyl

Pwrpas:

Bydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar y Cyd (Bwrdd Plant ac Oedolion) yn gweithio o fewn swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd Bwrdd Diogelu fel mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn eu nodi:

a) Cyfrannu tuag at sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol yn cael eu monitro ac yn parhau'n addas i'r diben, drwy ymgysylltu gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau Diogelu eraill, a chyfrannu at ddatblygu polisïau a gweithdrefnau i gydlynu beth sy'n cael ei wneud gan bartneriaid a chyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd at bwrpas gwarchod oedolion a phlant ac atal camdriniaeth, esgeulustod, a mathau eraill o niwed i blant ac oedolion o fewn ardal y Bwrdd.

b) Codi ymwybyddiaeth drwy ardal y Bwrdd o amcanion y Bwrdd i warchod at atal oedolion a phlant rhag bod mewn peryg o gamdriniaeth, esgeulustod a ffurfiau eraill o niwed, a darparu gwybodaeth am sut mae modd cyflawni hynny.

c) Adolygu effeithiolrwydd mesurau mae partneriaid y Bwrdd Diogelu a chyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd yn eu cymryd, a chyrff sydd â chyfrifoldebau diogelu o fewn ardal y Bwrdd, un ai'n unigol neu ar y cyd, i weithredu amcanion y Bwrdd a gwneud pa bynnag argymhellion mae'n eu gweld yn addas i'r cyrff hynny o ganlyniad i adolygiad o'r fath.

d) Cynnal Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl.

e) Cynnal archwiliadau, adolygiadau ac ymchwiliadau sydd eu hangen yn unol â'i amcanion; i fonitro i ba raddau mae unrhyw argymhellion a wneir dan baragraff (c) neu (d) yn cael neu wedi cael eu bodloni.

f) Adolygu perfformiad y Bwrdd a'i bartneriaid a'r cyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd o ran cyflawni ei amcanion.

g) Rhannu gwybodaeth am arferion gorau a'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau dan baragraff (d) neu (e), i rannu gwybodaeth gydag aelodau'r Bwrdd, Byrddau Diogelu eraill y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a phlant ac oedolion sydd yn, neu a allai gael eu heffeithio drwy arfer swyddogaethau'r Bwrdd Diogelu, a dod o hyd i faterion sy'n

dod i'r amlwg a allai effeithio ar gyflawni amcanion y Bwrdd a'u hystyried ac ymateb iddynt.

h) Hwyluso ymchwil i warchod plant ac oedolion sydd mewn peryg o niwed rhag camdriniaeth ac esgeulustod a'i atal.

i) Adolygu anghenion hyfforddiant yr ymarferwyr hynny sy'n gweithio yn ardal y Bwrdd er mwyn pennu gweithgareddau hyfforddi a darparu hyfforddiant a sicrhau y caiff ei ddarparu rhwng asiantaethau ac i asiantaethau unigol er mwyn cynorthwyo i atal a gwarchod plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed yn ardal y Bwrdd rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

j) Gweithredu ar y cyd â Bwrdd neu Fyrddau eraill neu gyrff tebyg eraill yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, neu awdurdodaethau eraill, lle mae'r Bwrdd yn ystyried y bydd yn ei gynorthwyo i gyflawni ei amcanion.

k) Ceisio cyngor neu wybodaeth arbenigol lle mae'r Bwrdd yn credu bod hynny'n berthnasol i'w gynorthwyo i weithredu ei amcanion.

l) Ymateb i unrhyw hysbysiad i'r Bwrdd ynghlwm ag unrhyw rai o'i swyddogaethau.

m) Cymryd rhan yn unrhyw weithgarwch arall sy'n hwyluso neu sy'n arwain at gyflawni ei amcanion.

Adrodd

Darparu adroddiad blynyddol a fydd, ar 31 Gorffennaf, yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a phartneriaethau strategol eraill sydd â chyfrifoldebau diogelu, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac at strwythurau llywodraethu'r asiantaethau sy'n aelodau.

Bodloni gofynion adrodd cyrff cenedlaethol a rhanbarthol e.e., Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Rhoi gwybod am bryderon i Lywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill, yn ôl yr angen, ynghlwm â materion sy'n ymwneud â chyfraniadau / ymrwymiad / arferion diogelu aelodau nad oes modd eu datrys ym Mwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

Cworwm

Mae'n rhaid cael isafswm o 50% o'r asiantaethau'n bresennol er mwyn cael cworwm yn y cyfarfod. Fodd bynnag, gall cyfarfodydd fwrw ymlaen heb gworwm llawn yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.

Sianeli Cyfathrebu

- Cyfathrebu gyda grwpiau rhanbarthol ac is-grwpiau rhanbarthol ar flaenoriaethau strategol.
- Sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda grwpiau rhanbarthol perthnasol eraill. Cyfathrebu gyda Byrddau Diogelu rhanbarthol eraill yng Nghymru fel bo'n briodol, a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

Trefniadau Cadeirio

Fel nodir o fewn y canllawiau statudol ar gyfer Rhan 7 (Diogelu) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae'n rhaid i Fwrdd benodi, drwy benderfyniad y mwyafrif, ddau o'i aelodau i fod yn gyd-gadeiryddion. Gall y cyd-gadeiryddion fod yn bartner Bwrdd neu o gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd a gall cadeirio gylchdroi rhwng partneriaid y Bwrdd a chyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd.

Mae dau Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael eu penodi'n Gyd-Gadeiryddion Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a byddant yn y swydd honno am ddwy flynedd. Hefyd, mae dau Is-Gadeirydd wedi cael eu penodi o blith partneriaid Bwrdd Statudol i gefnogi'r Cyd-Gadeiryddion yn eu Gwaith – gweler Atodiad 1 proffil Rôl y Cyd-Gadeiryddion

Cymorth Cyfreithiol

I gael ei ddarparu gan y partner (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) ar gyfer Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar y Cyd.

Gweinyddu

- Bydd Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar y Cyd yn darparu cymorth gweinyddol ar gyfer y Bwrdd Diogelu a'r is-grwpiau.
- Bydd cymorth arall ar gyfer y Bwrdd yn cael ei ddarparu gan yr Uned Cymorth Busnes.

Amlder y Cyfarfodydd

- Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter, gyda dyddiadau cyfarfodydd yn cael eu pennu heb fod yn hwyrach na Ionawr ar gyfer y flwyddyn ganlynol.
- Cynhelir un diwrnod hunan-asesu a/neu gynllunio bob blwyddyn.
- Trefnir cyfarfodydd ychwanegol fel bo'r angen.

Gwneud Penderfyniadau

- Yn ôl y mwyafrif.
- Bydd y Cadeirydd yn penderfynu'n derfynol ar unrhyw bleidlais hollt.

Cofnodion Cyfarfodydd

- Cofnodion a rhaglenni i gael eu dosbarthu 7 diwrnod gwaith cyn y

cyfarfod nesaf.

Diwygiadau i'r Cylch Gorchwyl

- ❖ Gyda chymeradwyaeth y Bwrdd yn unig.

Cofnod o Aelodaeth y Bwrdd

Bydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn sicrhau bod rhestr yn cael ei chynnal o'r rhai sydd wedi eu penodi ar hyn o bryd. Bydd presenoldeb yn y Bwrdd yn cael ei fonitro. (gweler Atodiad 2)

Bydd y rhai sy'n cael eu penodi o'r newydd yn cael datganiad o'r disgwyliadau ac ymrwymiadau sy'n ofynnol gan aelod o'r Bwrdd a'u cyflwyno i swyddogaethau a threfniadau llywodraethu'r Bwrdd.

Cyllid a Llywodraethu

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan asiantaethau partner statudol yn unol â'r fformiwla ariannu fel nodwyd yn nogfen Llywodraeth Cymru "Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg", y canllawiau sy'n cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae rôl Partner Arweiniol y Bwrdd Diogelu yn cael ei nodi o fewn y canllaw hwn ac ar gyfer Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru y Partner Arweiniol yw Cyngor Sir Ddinbych, sy'n gweithredu fel deilydd y gyllideb.

Mae'r cyllid gan asiantaethau partner y Bwrdd yn ariannu isadeiledd rhanbarthol o staff sy'n gweithio'n agos gyda Chadeiryddion y Bwrdd, partneriaid y Bwrdd Diogelu a chyrff eraill a gaiff eu cynrychioli ar y Bwrdd, gyda'u diben wedi eu nodi o fewn y canllaw uchod i:

- yrru busnes dyddiol yn ei flaen mewn perthynas â swyddogaethau craidd y Bwrdd.
- darparu cefnogaeth weinyddol a sefydliadol ar gyfer gwaith is-grwpiau'r Bwrdd.
- darparu cefnogaeth weinyddol a sefydliadol ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â sicrwydd ansawdd, hyfforddiant a datblygiad staff a'r trefniadau dysgu ac adolygu gan gynnwys Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl.
- darparu cefnogaeth ar gyfer yr adolygiad o berfformiad y Bwrdd

Cyfrifoldeb Aelodau'r Bwrdd

Mae gan bob asiantaeth gyfrifoldeb fel aelod o Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru i hyrwyddo swyddogaeth effeithiol y Bwrdd. Felly, mae'n ofynnol i bob asiantaeth wneud ymrwymiad ffurfiol i waith y Bwrdd er mwyn gallu cyflawni ei flaenoriaethau.

Bydd gan bob asiantaeth a sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i blant/oedolion:

- Ymrwymiad clir gan uwch reolwyr o ran pwysigrwydd diogelu.
- Llinell atebolrwydd glir yn y sefydliad am waith sy'n ymwneud â diogelu a pherfformiad.
- Arferion recriwtio diogel sy'n ystyried yr angen i ddiogelu, yn cynnwys archwilio cefndir staff newydd, staff presennol (pan fo'n bosibl), gwirfoddolwyr a darparwyr gwasanaethau a gomisiynir.

Mae'n ofynnol i'r aelodau ymgymryd â'r dyletswyddau a ganlyn:

Y Bwrdd

- Blaenoriaethu presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai dirprwy fynychu; mae'n rhaid i'r dirprwy hefyd fod mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau ar ran ei sefydliad.
- Cael eu dwyn i gyfrif am ledaenu gwybodaeth rhwng eu sefydliad eu hunain a Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ac i'r gwrthwyneb.
- Cymryd cyfrifoldeb am gynrychioli'r Bwrdd ar fforymau a phartneriaethau strategol eraill.
- Bod yn atebol am berfformiad eu hasiantaeth eu hunain o ran diogelu ac uwchgyfeirio unrhyw risgiau neu broblemau i'r Bwrdd yn ddi-oed.
- Cydymffurfio ag unrhyw archwiliad a gynhelir i effeithiolrwydd y Bwrdd neu arferion diogelu yn eu sefydliad eu hunain, a'u cefnogi.
- Cymryd rhan, neu adnabod unigolyn o'u hasiantaeth eu hunain i gymryd rhan, mewn Is-grwpiau, Grwpiau Tasg a Gorffen a phrosesau ymgynghori.
- Tynnu sylw'r Cyd-Gadeirydd at unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng eu rôl ar y Bwrdd a'u cyfrifoldebau sefydliadol unigol eu hunain.
- Tynnu sylw'r Cyd-Gadeirydd at unrhyw bryderon sy'n codi o'r ffordd yr ymdrinnir
  ag achos neu achosion sydd wedi eu codi gan aelod o staff yn eu hasiantaeth.

Eu Sefydliad

- Cyfathrebu gwaith y Bwrdd yn eu hasiantaeth/sefydliad er mwyn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i blant/oedolion sydd mewn perygl.
- Bod yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff yn eu sefydliad yn ymwybodol bod angen adrodd am bryderon am arferion diogelu.
- Bod yn Arweinydd Diogelu yn eu sefydliad a llywio'r agenda diogelu ymlaen ym
  mhob partneriaeth a fforwm lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Sicrhau bod cynlluniau gweithredu eu hasiantaeth yn cael eu rhoi ar waith o ran Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl.
- Gallu dylanwadu ar gynllunio strategol ar gyfer diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn eu sefydliad eu hunai

- Rheoli pob agwedd o gyfarfodydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, gan gynnwys gosod yr agenda, cadeirio cyfarfodydd, cytuno ar gofnodion a monitro'r camau gweithredu i'w cymryd.

- Sicrhau fod materion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol allweddol yn cael eu dwyn i sylw Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

- Goruchwylio a darparu cefnogaeth o ran cynhyrchu Cynlluniau'r Bwrdd ac Adroddiadau Blynyddol; bod yn gyfrifol am sicrhau bod adroddiad blynyddol y Bwrdd yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn a bod Cynllun Busnes Blynyddol y Bwrdd yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

- Cynnal cysylltiad da drwy gydol strwythur Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a chefnogi gwaith is-grwpiau'r Bwrdd yn weledol.

- Sicrhau bod Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl yn cael eu cynnal pan fo angen, gyda chyngor gan y Grŵp Adolygu Achosion.

- Cynnal cysylltiad rheolaidd â holl Brif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol a Chadeiryddion partneriaethau strategol eraill gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yr Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

- Cyfrannu at brosesau rheoleiddio, arolygu ac asesu corfforaethol fel sy'n ofynnol gan bob asiantaeth o fewn y bartneriaeth.

- Cyfrannu at gydlynu strategol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru mewn perthynas â phartneriaethau strategol eraill.

- Cynrychioli wyneb Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

- Dwyn aelodau o asiantaethau partner i gyfrif gan sicrhau eu bod yn darparu cefnogaeth ac adnoddau i'r aelod enwebedig o'r Bwrdd Diogelu.

- Sicrhau cysylltiadau â'r Comisiynydd Plant a Phobl Hŷn.

Atodiad 2: **Aelodau'r Bwrdd**

Cyd-gadeirydd: Jenny Williams, Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol ac Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyd-gadeirydd: Nicola Stubbins – Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, Cyngor Sir Ddinbych

Cyd Is-gadeirydd BDOGC: Michelle Denwood, Cyfarwyddwr Diogelu a Gwarchod y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Cyd Is-gadeirydd BDOGC: Jacqueline Downes, Ditectif Uwch-arolygydd / Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn, Heddlu Gogledd Cymru

Cyngor Ynys Môn - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion, y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc

Cyngor Gwynedd – y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phennaeth y Gwasanaethau Iechyd a Lles Oedolion, Pennaeth yr Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd, y Pennaeth Addysg

CBS Conwy – Pennaeth y Gwasanaethau Plant, Teuluoedd a Diogelu, y Pennaeth Addysg

Cyngor Sir Ddinbych – Pennaeth Gwasanaeth ar y Cyd ar gyfer Addysg a Phlant - Gofal Cymdeithasol Plant, Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol

Cyngor Sir y Fflint - Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu, y Pennaeth Addysg

CBS Wrecsam – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol / Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Uwch Bennaeth Gwasanaeth – Gofal Cymdeithasol Plant, y Pennaeth Addysg

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - Rheolwr Tîm Atal Tanau Bwriadol ac Addysg Busnes

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol - Pennaeth yr Uned Brawf Leol, Gogledd Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru – Nyrs Ddynodedig, y Tîm Diogelu Cenedlaethol

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru - Arbenigwr Diogelu, Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion

Barnardo's - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant

Cynrychiolydd Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid – Rheolwr Gwasanaeth Atal a Chefnogi, Uwch Reolwr/wyr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Meddyg Penodol Diogelu Plant, Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dirprwy Lywodraethwr, CEM Berwyn

Fforwm Gofal Cymru - Prif Swyddog Polisi

Pennaeth Diogelu ac Eiriolaeth, Rheolwr Prosiect HOPE, Age Cymru

Atodiad 3 Strwythur y Bwrdd